

## Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 96

Wendy's been trying to put pressure on Jenny to lie about the DNA results to prove that Brian is Frank's father. But the big question is will she agree?

### Key Language

amser/ateg  
idiomatic use of 'malu'  
gweld eisiau

### New Words

ffwdan	a fuss
holi yn dwll	to interrogate thoroughly
tro	time
lloerig	mad
darfod	to stop
go brin	unlikely
wrth fodd	delighted
codi pac	to pack up
siarad trwy dy het	to talk nonsense, literally to talk through your hat
nesáu	to approach
sgytwad	a shock
difrifol	serious
tyst	a witness
hanneru	to divide by half
strach	a mess
anghenion	needs
sefyll	to stand, to stay
o leiaf	at least
connan (SW)	to complain
ar eu holau (part of 'ar ôl')	after them
dal pen rheswm	to reason
hir-dymor	long-term
smonach	a mess
cymhleth	complicated
sâl ei feddwl	mentally ill, sick his mind
triniaeth	treatment
fel y boi	excellent, literally like the boy
ar gael	available
mawredd y byd!	good gracious! literally, the greatness of the world

Wendy - If you don't do this for me, you will be personally responsible for wrecking this relationship...

Jenny - Efallai dylsech chi wedi meddwl am hynny flwyddyn yn ôl, cyn cysgu hefo dyn arall

Wendy - Mae Brian yn ôl - clywais i swm y car tu fas! Plîs! Plîs! Dw i'n erfyn! Jenny - I'm on my hands and knees! Plîs?

Jenny - Dwn i'm wir...

But Jenny has an even more serious problem. Chris once more has thrown himself under her car, letting it be known that he had wanted her to kill him

Chris -Dw i wedi methu...

Jenny - Methu beth?

Chris - Methu gwneud i ti fy lladd i, you bitch.

## Main Grammatical Points

1. Two different words are used for 'time' in one of this week's episodes - *amser* and *adeg*. However, they're not exactly interchangeable. You can ask someone if they'd had an *amser da* - 'a good time' on their holiday, but you couldn't ask if they'd had an *adeg da*. *Amser* conveys the notion of continuing time, whereas *adeg* refers to a specific period in time; for example Jenny says about Chris:

Jenny - Fel rwyf ti'n gwybod, mae o wedi cael fixation arnaf i ers amser...Ac ar un adeg, roeddwn i'n meddwl bod y fixation wedi darfod...Ond yn amlwg iawn: dydy o ddim.

*Ers amser* here suggests a long period of time: 'Mae o wedi cael fixation arnaf i ers amser. 'He's had a fixation on me for a time'. But when Jenny says that at one time she thought the fixation was over, the phrase she uses is: *ar un adeg*.

'Ac ar un adeg roeddwn i'n meddwl bod y fixation wedi darfod'.

---

When Wendy explains to Brian how she'd suspected that Chris was a 'complete nutter', he says:

Paid â malu - don't talk nonsense.

The basic meaning of *malu* is 'to grind' or 'to mince', but it also has an idiomatic meaning, which is 'to talk rubbish or to talk nonsense'. You may also hear people saying 'malu awyr' to indicate idle talk. Literally this means 'to grind or to mince air' - quite a graphic description!

---

Listeners in South Wales may be familiar with the expression *gweld eisiau*: 'to experience a sense of loss'. In North Wales the word *eisiau* is more familiar in the phrase *dw i eisiau* 'I want', but *gweld eisiau* occurs twice this week meaning 'a sense of loss' or 'to miss' someone. Agnes tells Brian that Beca misses her big brother Rhodri when he stays with Brian: 'Mae hi'n gweld eisiau ei brawd mawr' - she misses her big brother, or she sees want of her big brother. Later on Agnes also tells Rhodri that Beca will miss him if he moves in full-time with his father: 'Bydd hi'n gweld dy eisiau di.' - 'She'll miss you.'

---

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 286

Chris has been sectioned in the psychiatric unit after witnesses saw him throw himself in front of Jenny's car.

Wendy's paranoid that Jenny may have said something to Brian about the DNA test. She doesn't want him to know she's lied to him.

### Geirfa

ffwdan	a fuss
holi yn dwll	to interrogate thoroughly
tro	time
lloerig	mad
darfod	to stop
go brin	unlikely
wrth fodd	delighted
crasboeth	boiling hot
codi pac	to pack up
siarad trwy dy het	to talk nonsense, literally to talk through your hat
nesáu	to approach
sgytwad	a shock
difrifol	serious
tyst	a witness

### Golygfa 1

Agnes - A beth ddigwyddodd wedi hynny?

Jenny - Daeth yr ambiwlans...Aethon nhw â Chris i fwrdd...Ac erbyn hynny, roedd yr heddlu wedi cyrraedd...

Agnes - Gêst ti ffwdan?

Jenny - Cês i'n holi yn dwll...Fel buaset ti'n ei ddisgwyl...

Agnes - Gêst ti dy gyhuddo?

Jenny - Naddo...Trwy lwc roedd yna ddau dyst - rhyw bobl oedd wrthi'n rhoi sbwriel allan ar gyfer y bore. Gwnaethon nhw weld y cwbl, diolch byth...

Agnes - Beth? Gweld Chris yn rhedeg yn fwriadol i'r hewl? ... Ond dyma'r ail dro iddo fe wneud hyn nawr, ontefe?

Jenny - Ie...Yr ail dro...A'r ail dro iddo wneud hynny i mi...

Agnes - Mae'n ofnadwy...

Jenny - Ydy...Ofnadwy... Dw i'n dal i gael hunllefau...

Agnes - Mae Chris yn hollol 'nuts', onid yw e?

Jenny - Dyna pam mae o'n sectioned erbyn hyn. Mae o angen triniaeth seiciatrig.

Agnes - Mae e'n hollol lloerig...

Jenny - Dyna'r farn gyffredin. Ydy - mae'r dyn yn lloerig...

Agnes - Treal dy gael di i'w ladd e? Dyna beth ddywedodd e?

Jenny - Ia...Mi ddywedodd o hynny wrthyf i...Dweud ei fod o eisiau i mi ei ladd o...

Agnes - Yffach...

Jenny - Fel rwyf ti'n gwybod, mae o wedi cael fixation arnaf i ers amser...Ac ar un adeg, roeddwn i'n meddwl bod y fixation wedi darfod...Ond yn amlwg iawn: dydy o ddim.

Agnes - Fydd dim achos llys i Chris nawr ynte?

Jenny - Go brin. Ddim ar hyn o bryd, beth bynnag.

Agnes - Wyt ti'n O.K.?

Jenny - Cês i dipyn o sioc...

Agnes - Dw i'n siwr...

Jenny - Cês i e-bost gan Arwyn o Nairobi echdoe hefyd...A gwnes i drïo adrodd yr hanes wrtho fo...

Agnes - Sut mae e'n joio mas yna?

Jenny - Wrth ei fodd...

Agnes - Siwr bod hi dipyn brafiach nag yw hi fan hyn...

Jenny - Mae hynny'n bendant...Haul crasboeth, meddai fo...Dw i'n teimlo weithiau fel codi pac a mynd yno fy hun...

Agnes -Does dim eisiau i ti fecso. Nawr fod Chris yn sectioned, all e ddim rhoi rhagor o drwbwl i ti...

Jenny - Digon gwir. Ac mae hynny yn gysur mawr.

## Golygfa 2

Wendy - I always knew that Chris guy was a complete nutter.

Brian - Mmmm.

Wendy - Gallet ti ddweud...Oedd golwg crazed arno fe...

Brian - Sut gelli di ddweud?

Wendy - The eyes...thin, dark little weasel eyes...

Brian - Wendy - paid â malu...

Wendy - A'r pose yna...That mock-Americana...Roedd e'n galw pawb yn 'man'...Never trust anybody who calls you 'man'...

Brian - Rwy'ti'n siarad trwy dy het...

Wendy - Na, dydw i ddim...

Brian - Es i draw i weld Chris yn yr ysbyty y prynhawn yma...Maen nhw wedi ei lonyddu fo...Lot o ddrygs...Dydw'n nhw ddim yn siwr ond maen nhw'n amau ei fod o'n scitsoffrenig...

Wendy - Mae hynny'n serious...

Brian - Ydy, mae o...

Wendy - Beth ddywedaist ti wrtho fe?

Brian - Doedd yna ddim lot allwn i ei ddweud...Gwnes i ofyn sut oedd...Sut oedd o'n teimlo...Ond wnaeth o ddim dweud rhyw lawer...

Wendy - Too heavily sedated?

Brian - Ia. Roedd o'n debycach i zombie...

Wendy - Bydd rhaid i ti ffeindio rhywun newydd i weitho yn y garej nawr...

Brian - Bydd...

Wendy - 'Hassle'.

Brian - Ia, braidd...yn enwedig efo'r Nadolig yn nesáu hefyd...

Wendy - Sut mae Jenny Saunders, wyt ti'n meddwl?

Brian - Gwelais i hi y bore yma...

Wendy - Ble?

Brian - Yn y garej...Yn rhoi petrol yn ei char...

Wendy - Ydy hi'n O.K.?

Brian - Roedd hi wedi cael dipyn o sgytwad...Ond wedyn pwy fuasai ddim?

Wendy - Ie...I can imagine...

Brian - Roedd hi jest yn falch bod Chris yn mynd i gael triniaeth...Mae gan y boi yna broblemau meddyliol difrifol...

Wendy - Wnaeth Jenny ddim sôn dim am y DNA, naddo?

Brian - Wel, naddo. Pam ddylsai hi?

Wendy - Dacw ni. Mae swper yn barod nawr...

Brian - Pam fuasai hi eisiau sôn am y DNA, Wendy? Does yna ddim byd arall i'w ddweud, nac oes?

Wendy - Nac oes...wrth gwrs ddim

Brian - Dyna fo. Pam wyt ti'n gofyn?

Wendy - Jyst gofyn. Dyna'r cyfan...

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 287

Agnes tells Brian that Rhodri wants to live with him full time.

Jenny has reluctantly given in to Wendy's request to change the DNA results.

Jac's convinced that if Agnes would let Rhodri live with Brian, he'd soon come back.

### Geirfa

hanneru	to divide by half
strach	a mess
anghenion	needs
sefyll	to stand, to stay
o leiaf	at least
connan (SW)	to complain
ar eu holau (part of 'ar ôl')	after them
dal pen rheswm	to reason
hir-dymor	long-term
smonach	a mess
cymhleth	complicated

### Golygfa 1

Brian - Agnes...

Agnes - Bore da... Dw i ar y ffordd i'r gwaith...Sa i'n aros yn hir...Ond dw i moyn gair clou gyda ti...

Brian - Am beth?

Agnes - Rhodri. Fel rwyd ti'n gwybod - mae fe moyn byw gyda ti trwy'r amser. Ac yn mynnu bod hynny i ddigwydd nawr.

Brian - Fedraf i ddim rwan. Dw i wedi egluro wrtho fo...

Agnes - Mae fe'n mynnu. So fe'n fodlon hanneru'r amser rhyngddon ni ddim mwy. Ac os na chaiff e ei ffordd, mae fe'n bygwth rhedeg bant unwaith eto...

Brian - Dyma beth ydy strach!

Agnes - Dw i'n cytuno. A dw i wedi treal dal pen rheswm gyda fe...Ond mae fe'n mynnu cael ei ffordd ei hunan...Ond dywedais i ein bod ni'n ffael jyst meddwl 'bytu ei anghenion e...Mae rhaid i ni feddwl 'bytu Beca hefyd...Ac os bydd Rhodri yn byw gyda ti trwy'r amser - beth am 'bytu hi? Mae hi'n gweld eisiau ei brawd mawr pan mae fe'n sefyll gyda ti...

Brian - Gallaf i ddeall hynny...

Agnes - Beth allen ni wneud 'bytu'r sefyllfa ynte?

Brian - Wel, o fy safbwynt i...Waeth i mi fod yn hollol onest ddim...Fedraf i ddim cael Rhodri yn byw efo ni trwy'r amser... Wel, ddim ar hyn bryd o leiaf. A dweud y gwir, dydy Wendy ddim yn rhy hapus iddo fo ddod aton ni o gwbl...

Agnes - Wel, smo Jac yn conan.

Brian - Does gan Jac ddim dau o blant bach i edrych ar eu holau nhw, nac oes? Bydd yn deg, Agnes...

Agnes - Dewis Wendy yw byw gyda ti...Ond does dim ots gyda fi am 'bytu hi...Becso am Rhodri ydw i...

Brian - Gad i mi siarad efo Rhodri...

Agnes - Os yw e'n mynnu byw gyda ti trwy'r amser...Wel...Sa i'n mynd i wrthwynebu...Ond bydd rhaid i ti gymryd Beca hefyd...

Brian - Bydd hynny'n anodd iawn...Fel dw i newydd ddweud...Mae'n rhaid i Wendy fod yn rhan o unrhyw benderfyniad hir-dymor...

Agnes - Brian - pwy sydd bwysicaf i ti? Mmmm?

Brian - Does dim ateb call i gwestiwn fel yna, nac oes?

### Golygfa 2

Jenny - Helo?

Wendy - Hiya. Fi sydd yma...

Jenny - Wendy - beth allaf i ei wneud i chi?

Wendy - Sori i'ch haslo chi...Oh ...gaf i ddweud 'ti' plîs, mae'n haws i fi. So, sori i dy haslo di, ond becco oeddwn i...Rwyf ti'n gwybod...y test DNA yna...

Jenny - Doeddwn i ddim wir eisiau trafod y peth ar y ffôn. Ond, i ti gael gwybod, ar ôl lot fawr o bendroni, dw i wedi gwneud beth wnest ti ofyn i mi ei wneud. Dw i wedi dweud mai Brian ydy tad Frank yn y llythyr...

Wendy - A dw i'n 'grateful' i ti...Really grateful...Eternally grateful...Neu ddiolchgar dylswn i ei ddweud...Ond mae un peth...

Jenny - Beth?

Wendy - Welaist ti Brian y bore yma?

Jenny - Gwnes i stopio yn y garej i gael petrol, do...

Wendy - Gêst ti chat gyda Brian?

Jenny - Do. Am Chris.

Wendy - Ond ddim y DNA?

Jenny - Na.

Wendy - Dyna pam dw i'n ffonio...Roeddwn i'n becco bod Brian wedi gofyn rhywbeth i ti...

Jenny - Wnaeth o ddim...Roedd o eisiau gwybod am Chris...

Wendy - Sectioned in the looney bin. The right place for him.

Jenny - Yr uned seciatrig rydyn ni'n ei galw hi...

Wendy - Lock him up and throw the key away...

Jenny - Oes yna rywbeth arall, Wendy?

Wendy - Na. Sori. Dw i jyst yn teimlo bach yn paranoid, dyna'r cyfan...

Jenny - Hwyl ynte.

Wendy - Thanks again...

Jenny - Wendy? Plîs - allaf i ofyn i ti beidio fy ffonio i eto? Dw i wedi bod tan lot o bwysau yn ddiweddar...

Wendy - Ie. O.K. I promise not to hassle you again.

### Golygfa 3

Agnes - lawn, Rhodri?

Rhodri - lawn, mam.

Agnes -Dw i moyn i ti wybod fy mod i wedi sgwrsio gyda dy dad. O'r gorau?

Rhodri - O'r gorau.

Agnes - Yn bersonol: byddai'n well gyda dy dad a fi dy fod ti'n glynu at y trefniant sydd gyda ni...A dy fod ti'n rhannu dy amser yn deg rhyngddon ni...ond ar y llaw arall, os wyt ti'n mynnu mynd i fyw llawn amser at dy dad nawr - wel - sa i'n mynd i dy rwystro di...

Rhodri - Ydw, dw i moyn mynd i fyw at dad nawr.

Agnes - A beth am 'bytu Beca'?

Rhodri - Gall hi aros fan hyn gyda ti.

Agnes - Bydd hi'n gweld dy eisiau ti.

Rhodri - Dw i moyn mynd i fyw at dad nawr.

Agnes - Bydd rhaid i fi siarad gyda fe eto ynte...

Rhodri - Gaf i fynd i edrych ar y teledu nawr?

Agnes - Cei. Dyma beth yw smonach...!

Jac - Gad iddo fo fynd i fyw at Brian...A daw o yn ôl yn ddigon buan - cei di weld...

Agnes - Byddai lot yn well gyda fi petai Rhodri yn rhannu ei amser rhyngddon ni...

Jac - Efallai ei bod hi'n well iddo fo gael un lle i'w alw yn gartref... Rwyf ti'n gwybod...un 'base'. Efallai wedyn, bydd o'n teimlo'n fwy 'settled'...

Agnes - Wyt ti'n meddwl?

Jac - Heb iddo fo fynd i fyw at ei dad trwy'r amser - fyddwn ni ddim yn gwybod, na fyddwn ni?

Agnes - Smo Wendy moyn e yna o gwbl. Dywedodd Brian hynny...

Jac - Well, tough.

Agnes - Pam mae bywyd mor gymhleth, dywed?

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 288

Brian tells Jenny of his newly-discovered paternal feelings.

Jac tells Wendy he wants to go back into business.

And Jenny's made some quite unusual plans.

### Geirfa

sâl ei feddwl	mentally ill, sick his mind
triniaeth	treatment
fel y boi	excellent, literally like the boy
ar gael	available
mawredd y byd!	good gracious! literally, the greatness of the world

### Golygfa 1

Jenny - Brian?

Brian - Hello...

Jenny - Beth sydd wedi dy dynnu di draw i'r ysbyty yma? Ymweld â fo, ia?

Brian - Chris? Ia...Prin roedd o yn fy adnabod i...

Jenny - Mae o'n sâl iawn ei feddwl...

Brian - Dyna beth ddwedodd y doctor wrthyf i...

Jenny - Ond o leiaf dw i'n falch fod deiagnosis wedi bod...A bod posib iddo fo dderbyn triniaeth a gwella...

Brian - Gobeithio wir...

Jenny - O leiaf mae hynny'n bosibilrwydd rwan, onid ydy? Er - does dim dal beth wneith ddigwydd chwaith...Ond mae'n debyg mai sgitsoffrenig ydy o...Arwydd o hynny ydy'r awydd yma i frifo a chosbi ei hun trwy'r amser...

Brian - A gwneud dy fywyd di'n uffern...

Jenny - O leiaf mi fedraf i ddeall pam roedd o'n bihafio fel roedd o rwan...Mae ei ymddygiad o'n gwneud rhyw fath o sens...Mae rhyw fath o batrwm i'r cwbl...

Brian - Gwranda, well i mi fynd yn ôl i'r gwaith...

Jenny - Sut mae'r babi?

Brian - Fel y boi...Ddylw'n i ddim dweud hyn...Ond doeddwn i ddim yn siwr os mai fy mab i oedd o...Ond mi gafodd Wendy a finnau brawf DNA - fel rwyf ti'n gwybod - ac mi ddangosodd y prawf yn glir mai fi ydy tad Frank...A wir i ti... byth ers hynny dw i'n dechrau teimlo fy mod i'n gallu closio ato fo o'r diwedd...

Jenny - Mae hynny'n beth da, onid ydy?

Brian - Ydy, mae o...Ond diolch byth am DNA ddywedaf i. Hwyl.

Jenny - Hwyl...

### Golygfa 2

Wendy - Jac Whelan?

Jac - Wel, wel. Wendy Keating. So, hwn ydy Frank, ie?

Wendy - Ie...

Jac - Brawd bach neis gen ti fan yna, Vicky. ...Hei, Wendy, mae o'r un ffunud â Brian, onid ydy...?

Wendy - So...beth wyt ti'n wneud fan hyn ynte?

Jac - Gallwn i ofyn yr un peth i ti...

Wendy - House hunting...Or maybe flat hunting...

Jac - Unrhyw lwc?

Wendy - Does dim byd ar gael...Wyt ti'n gweld y fflat lan fan acw...Ail o'r top ar y chwith...

Jac - O, ia...Efo'r tywel ar 'railing' y balconi...?

Wendy - Dyna ble roeddwn i'n byw yr amser hyn llynedd...Mind you, if you weren't going to put the house on the market I wouldn't be out here now doing this...

Jac - Dw i angen y prês, Wendy.

Wendy - Don't we all?

Jac - Dw i eisiau mynd yn ôl i fusnes. A dw i angen capital.  
Wendy - Pa fath o fusnes? Second hand cars?  
Jac - Na. Rhywbeth arall...  
Wendy - Fel beth?  
Jac - Dw i ddim yn siwr eto...Ond buaswn i'n leicio mynd yn ôl i fusnes efo Brian...  
Wendy - Don't see that happening myself, somehow.  
Jac - Na fi chwaith. Dyn ni wedi cael chat...ond doedd dim lot o ddiddordeb gan Brian...  
Wendy - Right then. Better go. Mae hi bach yn rhy oer i ni fan hyn, onid yw hi Vicky?  
Jac - So...Pob lwc efo'r house hunting.  
Wendy - Thanks... I'll need it...

### Golygfa 3

Agnes - Jenny?  
Jenny? Beth sydd? Rwyd ti'n edrych yn bell i ffwrdd...  
Jenny - Mi oeddwn i. Yn bell, bell i ffwrdd...  
Agnes - Yn meddwl 'bytu beth ynte?  
Jenny - Beth dw i newydd ei wneud...  
Agnes - A beth wyt ti newydd ei wneud? Oes gyda fi hawl gofyn?  
Jenny - Bwcio ffleit.  
Agnes - Bwcio ffleit i ble?  
Jenny - Affrica.  
Agnes - Affrica? Beth? Nawr?  
Jenny - Dw i'n mynd ddydd Sadwrn. O Heathrow.  
Agnes - Am faint wyt ti'n mynd? Pythefnos bach yn yr haul ie?  
Jenny - Dw i'n mynd am ddau fis.  
Agnes - Beth?!  
Jenny - Dw i'n mynd i Nairobi am ddau fis.  
Agnes - At Arwyn?  
Jenny - Mae'n siwr y gwelaf i Arwyn yno. Ond na, ddim ato fo dw i'n mynd i aros...Byddaf i'n aros mewn gwesty... Dw i jest eisiau mynd i ffwrdd o fan hyn...Gadael yr hen le yma...Gadael fy holl broblemau y tu ôl i fi....  
Agnes - Ond mawredd y byd! Am ddau fis?  
Jenny - Dydy hynny ddim yn lot o amser, Agnes...Wyth wythnos ydy o...  
Agnes - Cymer ofal...  
Jenny - Byddaf i'n siwr o wneud...  
Agnes - Wyt ti wedi cael dy jabs?  
Jenny - Pam wyt ti'n meddwl oeddwn i off y gwaith ddechrau'r wythnos?  
Agnes - Wyt ti wedi bod yn meddwl am fynd bant ers sbel fach, mae'n amlwg, ynte?  
Jenny - Ydw. Ydw, mi rydw i. Dw i eisiau newid byd. A dw i'n meddwl bydd mynd i Affrica am gwpl o fisoedd yn gwneud byd o les i mi...

## Synopsis

Jenny's feeling so stressed that she's taking a two month break. She finally agreed to write a false letter stating that Brian is Frank's father, but is not proud of herself at all.

No wonder Jenny needs a 2 month break – she's also been unnerved by Chris's second attempt to throw himself under her car. Thankfully, Chris has now been sectioned in a psychiatric unit, leaving Brian without help in the garage. Meanwhile, Rhodri is insisting on living with his father full time.

### Test yourself

1. If you wrote a postcard to say you were having a good time, would you say:
  - (a) yn cael adeg da
  - (b) **yn cael amser da**
  - (c) yn cael cyfnod da
2. Is to talk nonsense
  - (a) **malu awyr**
  - (b) malu tân
  - (c) malu dŵr
3. What word would you use to translate 'mad'?
  - (a) **lloerig**
  - (b) lloerenaidd
  - (c) lleuadaidd
4. If you wanted to comment that Beca was the image of her mother, what would you say?
  - (a) Mae Beca 'run ddelw â'i mam
  - (b) **Mae Beca 'run ffunud â'i mam**
  - (c) Mae Beca 'run cerflun â'i mam
5. Jenny says she's under pressure. Is she
  - (a) **dan bwysau**
  - (b) dan bwysi
  - (c) dan bwyslais
6. If something's doing you the world of good, how would you say so?
  - (a) byd o elw
  - (b) daear o ddaioni
  - (c) **byd o les**